

Cymru Cenedl Noddfa:

Hysbysiad Preifatrwydd Cymorth i Weithwyr Gofal Rhyngwladol

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent wedi ymrwymo i ddiogelu eich preifatrwydd pan fyddwch yn defnyddio ein gwasanaethau. Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn wedi'i gynllunio i roi gwybodaeth i chi am y data rydym yn ei gadw amdanoch chi, sut rydym yn ei ddefnyddio, eich hawliau mewn perthynas ag ef a'r mesurau diogelwch sydd ar waith i'w ddiogelu.

Rheolwr Data

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
Swyddfeydd Cyffredinol
Ffordd y Gwaith Dur
Glynebwy
NP23 8UW

Os hoffech godi pryder ynghylch y ffordd y caiff eich data personol ei drin, cysylltwch â'r Swyddog Diogelu Data gan ddefnyddio'r manylion isod:

Swyddog Diogelu Data:

Steve Berry

01495 355080

E-bost: dataprotection@blaenau-gwent.gov.uk

Fel rhan o Gymru – Cenedl Noddfa Cymorth i Weithwyr Gofal Rhyngwladol, bydd y Cyngor yn darparu cymorth a chynghor i weithwyr gofal rhyngwladol sydd wedi'u dadleoli drwy'r Gwasanaeth Ymgynghorol Cenedlaethol.

1) Pwy sy'n darparu eich data i'r Cyngor?

Rydym yn prosesu'r wybodaeth bersonol a roddwch yn uniongyrchol i ni pan fyddwch yn cofrestru am gymorth a chynghor.

2) Sut mae'r Cyngor yn casglu'r wybodaeth hon?

- Os byddwch yn llenwi ffurflen ar wefan y Noddfa
- Os byddwch yn cysylltu â ni dros y ffôn neu drwy e-bost

3) Pa wybodaeth mae'r Cyngor yn ei chasglu amdanoch chi?

Gall y Gwasanaeth Ymgynghorol Cenedlaethol gasglu:

- Manylion cyswllt (enw/cyfeiriad/e-bost/ffôn)
- Cymwysterau

- Gofynion cyflogaeth penodol
- Cyflogwr presennol
- Gwybodaeth UKVI

4) Pam mae'r Cyngor yn prosesu eich data personol?

O dan Erthygl 6 o Reoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU (UK GDPR), y sail gyfreithlon rydym yn dibynnu arni yw:

(e) Mae ei angen arnom i gyflawni tasg gyhoeddus.

5) Pwy sydd â mynediad at eich data?

Dim ond y staff priodol yn fewnol sy'n cael eu rhannu â'ch data lle bo'n angenrheidiol ar gyfer cyflawni eu rolau.

Ni fyddwn yn trosglwyddo eich manylion i drydydd partïon oni bai ein bod yn ofynnol yn gyfreithiol i wneud hynny.

A yw'r Data yn cael ei drosglwyddo y tu allan i'r DU?

Na

6) Sut mae'r Cyngor yn cadw eich data'n ddiogel?

Mae gan y Cyngor bolisiâu mewnol i sicrhau nad yw'r data a brosesir yn cael ei golli, ei ddinistrio'n ddamweiniol, ei gamddefnyddio na'i ddatgelu. Mae mynediad at y data hwn wedi'i gyfyngu yn unol â pholisiâu mewnol y Cyngor ac yn cydymffurfio â'r UK GDPR. Bydd data'n cael ei gadw'n ddiogel yn:

- Gronfeydd data electronig y Cyngor
- Gyriannau rhwydwaith diogel

Pan fydd y Cyngor yn ymgysylltu â thrydydd partïon i brosesu data personol ar ei ran, byddant yn gwneud hynny ar sail cyfarwyddiadau ysgrifenedig. Mae'r trydydd partïon hyn hefyd o dan ddyletswydd cyfrinachedd ac yn rhwym i weithredu mesurau priodol i sicrhau diogelwch data.

7) Am ba hyd mae'r Cyngor yn cadw eich data?

Bydd y Cyngor yn cadw eich data personol dim ond am yr amser sy'n angenrheidiol ac yn dilyn safonau sefydliadol ac Awdurdod Lleol yn y maes hwn. Ar ddiwedd y cyfnod cadw, bydd y Cyngor yn dinistrio neu'n gwaredu'r data yn ddiogel yn unol â'r amserlenni cadw.

8) A ydym yn gwneud penderfyniadau awtomataidd/proffilio gyda'ch data?

Na

Eich hawliau

Mae gennych nifer o hawliau y gallwch eu gweithredu:

- Mynediad – i gael copi o'ch data ar gais
- Cywiriad – i ofyn i'r Cyngor newid data anghywir neu anghyflawn
- Gwrthwynebu, Cyfyngu neu Dileu – o dan amgylchiadau penodol gallwch ofyn i'r Cyngor ddileu neu roi'r gorau i brosesu eich data, er enghraifft lle nad yw'r data yn angenrheidiol bellach ar gyfer y dibenion prosesu
- Cludedd data – i dderbyn a/neu drosglwyddo data a roddwyd i'r Cyngor i sefydliadau eraill (mae hyn yn berthnasol mewn amgylchiadau cyfyngedig)
- Tynnu eich caniatâd yn ôl unrhyw bryd (lle rhoddwyd caniatâd)
- Gwybod am ganlyniadau methu â darparu data i'r Cyngor
- Gwybod am fodolaeth unrhyw benderfyniadau awtomataidd, gan gynnwys proffilio, a'r canlyniadau i chi
- Gwneud cwyn i awdurdod goruchwyllo (Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth)

Os hoffech weithredu unrhyw un o'r hawliau hyn, cysylltwch â:

Tîm Llywodraethu Gwybodaeth

dataprotection@blaenau-gwent.gov.uk

01495 311556

Gellir cysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (Cymru)

2il Llawr, Ty Churchill, Ffordd Churchill, Caerdydd, CF10 2HH

Ffôn: 0330 414 6421

E-bost: Wales@ico.org.uk